Pryfed bach prysur

Gnweud fawr o amser / Mwynhau bywyd natur

Ganol mis Mai pan fydd y tywydd wedi cynhesu a'r blodau a'r coed ar eu gorau ewch am dro i lan yr afon. Eisteddwch ar y dorlan a gwyliwch. Ymhen dim byddwch yn siŵr o weld cannoedd o bryfed yn hedfan uwchben y dŵr. Gwybed undydd neu wybed Mai ydi'r rhain. Fel mae'r enwau'n dweud pryfed sydd i'w gweld ym mis Mai ydi'r rhain ond yr hyn sy'n anhygoel ydi mai dim ond am un diwrnod mae'n nhw'n byw. Ie, gwybed undydd ydy'n nhw! Mae'r pryfed yn byw yn y dŵr am fisoedd. Bydd y benywod yn dodwy eu hwyau yn y dŵr. Bydd yr wyau wedyn yn syrthio i'r llyn. Ar ôl rhai wythnosau bydd yr wyau'n deor yn nymffiaid. Bydd rhain yn byw yng nghanol y cerrig mân a'r tyfiant.

Fel bydd y gwanwyn yn troi'n haf bydd y nymffiaid wedi tyfu i'w llawn dwf. Gyda'r nos byddan nhw'n dringo o'r dŵr ar blanhigyn sy'n tyfu ar y lan. Ar ôl gorffwyso am gyfnod byr, erbyn y bore bydd cefn y nymff yn hollti ac allan ohono bydd pry newydd yn ymddatod. Bydd gwres y bore bach yn ei helpu i sychu ei adenydd ac ymhen awr neu ddwy bydd yn barod i hedfan. Ond nid un nymff fydd yn dringo allan o'r dŵr ond cannoedd. Ac felly ar fore braf o Fai bydd cannoedd ar gannoedd o wybed undydd yn hedfan uwchben y dŵr. Mae hon yn olygfa fythgofiadwy. Beth felly yw diwrnod ym mywyd gwybedyn undydd?

Ar ôl i'r haul godi'n gynnar yn y bore a'r ddaear yn dechrau cynhesu bydd y gwybed yn dawnsio uwchben y dŵr. Bydd y benywod a'r gwrywod yn dawnsio gyda'i gilydd. Dawns ydi hon i chwilio am gymar. Tua chanol dydd pan fydd yr haul yn ei anterth bydd y gwrywod a'r benywod yn paru. Bydd hyn yn digwydd tra maen nhw'n hedfan yn yr awyr. Erbyn canol y pnawn bydd y fenyw yn barod i ddodwy ei hwyau yn y dŵr. Fel mae'r haul ym machlud bydd bywyd y gwybedyn undydd ar ben. Bydd y benywod a'r gwrywod yn syrthio ar wyneb y

d_r yn farw gelain. Bydd y pysgod yn llamu o'r dŵr i'w llyncu. Pryd da o swper cyn i'r nos dywyllu pobman. Ac yn ystod y diwrnod hwn mae'r gwybedyn undydd wedi paratoi ar gyfer y dyfodol. Y cyfan wedi ei gywasgu i un diwrnod o fywyd anhygoel.

Maen nhw'n byw am fisoedd yn nhywyllwch y llyn ac yna am un diwrnod fe fyddan nhw'n byw yn yr heulwen. Mae'n rhaid i'r gwybedyn undydd wneud yn fawr o'r un diwrnod arbennig hwn i baratoi ar gyfer y dyfodol. Mor bwysig ydi'r un diwrnod!

O Dduw, helpa fi i fyw bywyd llawn bob dydd o'r flwyddyn. Amen.

✦ Chwiliwch am lun o'r gwybedyn undydd. Pam fod y gwybed hyn yn bryfed mor anhygoel?

✦ Beth yn union mae'r gwybedyn undydd yn ei wneud yn ystod y diwrnod y bydd yn dod allan o'r dŵr?